

Eich Preifatrwydd **Chi**  
Eich Hawliau **Chi**



**Mae sawl rhan o'r GIG megis ysbytai, Meddygon Teulu, Deintyddion, Optegwyr a Fferyllwyr Cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal i bobl Cymru.**

Nod y bobl a'r sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yw darparu gofal o'r ansawdd uchaf i chi. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni gadw cofnodion am eich iechyd ac unrhyw driniaeth neu ofal a ddarperir i chi.

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i ofalu am wybodaeth o ddifrif. Mae gan staff GIG Cymru ddyletswydd gyfreithiol i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol, yn gywir ac yn ddiogel, ac maent wedi'u hyfforddi i drin gwybodaeth amdanoch yn gywir i ddiogelu eich preifatrwydd.

Rydym yn defnyddio gwybodaeth amdanoch i ganiatáu i'r rhai sy'n ymwneud â'ch triniaeth neu ofal gael gwybodaeth gywir a chyfredol i asesu eich iechyd, penderfynu pa driniaeth neu ofal sydd ei hangen arnoch a phryd a ble y byddwch yn derbyn hyn.

**RHAGOR O WYBODAETH** mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn rheoli gwybodaeth a'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data ar gael yn y daflen ganlynol



## Pam mae GIG Cymru yn casglu gwybodaeth amdanoch chi a y gellir ei defnyddio

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth amdanoch, yn unol â deddfau a mesurau diogelu perthnasol i wneud y canlynol:

- eich gwahodd i gael triniaeth reolaidd sy'n gymwys
- asesu'r gofal effeithiol o ansawdd da a gawsoch
- cynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion y dyfodol
- cefnogi ymchwil iechyd
- adolygu ac adrodd ar berfformiad y GIG yng Nghymru
- sicrhau bod GIG Cymru yn dangos gwerth da am arian
- ymchwilio i unrhyw bryderon, cwynion, hawliadau cyfreithiol, digwyddiadau neu ymchwiliadau

Byddwn ond yn defnyddio'r lleiafswm o wybodaeth sydd ei hangen ar yr adeg honno a, lle bo'n bosibl, byddwn yn lleihau neu'n dileu gwybodaeth sy'n golygu y gallech gael eich adnabod.

Efallai y bydd angen rhannu gwybodaeth amdanoch chi gyda phobl a sefydliadau o fewn y GIG sy'n gyfrifol am ddarparu triniaeth a gofal i chi.

Weithiau, efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth y tu allan i GIG Cymru, gall hyn fod pan fo gofyniad cyfreithiol neu fel rhan o gytundeb neu gontract i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan. Os felly, rhaid i sefydliadau fodloni rheolau llym y GIG ynghylch diogelwch data.

Mae deddfwriaeth yn nodi bod gan unigolion hawliau penodol sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth bersonol amdanant. Mae gennym gyfrifoldeb i'ch hysbysu sut y gallwch arfer yr hawliau hyn.



I gael rhagor o wybodaeth, gofynnwch i aelod o staff neu ewch i'r wefan isod: